Uned 5F: Defnyddio TGCh i Archwilio a Datblygu Syniadau Cerddorol

Ynglyn â'r Uned:

Yn yr uned hon bydd plant yn adeiladu ar eu gwybodaeth a'u profiad blaenorol i ddatblygu syniadau cerddorol drwy ddefndyddio TGCh a dulliau eraill. Byddant yn defnyddio meddalwedd cerddoriaeth i gynllunio, trefnu a chreu cyfansoddiad. Byddant yn arfarnu eu gwaith a gwaith plant eraill ac addasu eu gwaith yn ôl yr angen a pherfformio eu cyfansoddiad, efallai i gyfeiliant offerynnau cerdd go-iawn. Byddant yn defnyddio brawddegau cerddorol wedi'u rhagosod, ond hefyd byddant yn gosod nodiant cerddorol ar erwydd i gyfansoddi darn gwreiddiol o gerddoriaeth. Byddant yn cadw ac adfer eu gwaith yn annibynnol ac yn defnyddio TGCh i greu, trefnu a recordio seiniau.

Bydd y plant yn gallu cymhwyso'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon mewn cerddoriaeth.

Ble mae'r Uned hon yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar Uned 3B: Trafod Sain

Dylai disgyblion allu gwneud y canlynol yn barod:

- Defnyddio TGCh i wneud dewisiadau
- Yn gyfarwydd â chynrychioliadau graffeg o gerddoriaeth
- Adnabod rhai gwerthoedd nodau cerddorol a deall bod y safle ar yr erwydd yn dynodi traw uwch neu is
- Gwerthuso eu gwaith yn erbyn meini prawf penodol a'i addasu i'w wella, gan gynnig rhesymau dros wneud hynny.

Geirfa:

Cyfansoddi| Dilyniant | Brawddeg | Erwydd | Rhythm | Traw | Alaw | Bas | Ail-adrodd | Cadw | Adfer | Arfarnuo | Perfformio | Papur erwydd

Adnoddau:

Meddalwedd cyfansoddi cerddoriaeth gydag eiconau i gynrychioli brawddegau cerddorol | meddalwedd cerddoriaeth sy'n caniatáu gosod nodau cerddorol ar Erwydd | Dewis o offerynau cerdd | Meicroffon | Allweddellau electronig

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: archwilio amrywiaeth o syniadau mewn meddalwedd cerddoriaeth, gan ddefnyddio brawddegau a nodiant i ddatblygu a mireinio cyfansoddiad cerddorol a fydd yn cael ei berfformio o flaen pobl eraill.
Bydd rhai plant dim ond yn gallu: defnyddio meddalwedd cerddoriaeth i greu cyfansoddiad gan ddefnyddio dilyniant o frawddegau cerddorol wedi'u rhagosod.
Hefyd bydd rhai plant yn gallu: defnyddio amrywiaeth o syniadau mewn meddalwedd cerddoriaeth, gan gynnwys defnyddio amldracio i ddatblygu a mireinio cyfansoddiad cerddorol, y byddant yn perfformio o flaen pobl eraill. Maen nhw'n deall effeithiau seibiau ac maen nhw'n gallu defnyddio'r meddalwedd i ychwanegu rhythm at eu cyfansoddiad.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithioIrwydd Addysg

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Gosod yr Olygfa			
• **pwynt allweddol:** bod cyfansoddiadau cerddorol sy'n cael eu creu ar y cyfrifiadur yn gallu cael eu haddasu a'u gwella ar ôl eu harfarnu	• Dangoswch a gwrandewch ar rai enghreifftiau o gyfansoddiadau cerddorol sydd wedi'u recordio o'r blaen. Trafodwch naws a'r defnydd o batrwm, ailadroddiadau, alaw, bas a rhythm. Anogwch y plant i arfarnu'r cyfansoddiadau hyn a dangoswch iddynt sut i addasu'r gerddoriaeth e.e. drwy newid tempo a/neu offerynnau cerdd a newid y dilyniant agoraidd/diwedd • Esboniwch wrth y plant y byddant yn creu eu cyfansoddiadau cerddorol eu hunain.	• Ddeall bod cerddoriaeth yn gallu cael ei chreu ar y cyfrifiadur a'i mireinio'n nes ymlaen i wella perfformiad y cyfansoddiad	• Ar y pwynt hwn yn yr uned mae'n bwysig bod y plant yn deall sut mae eu cyfansoddiadau'n gallu cael eu mireinio. Felly, efallai y peth gorau fyddai defnyddio meddalwedd sy'n defnyddio brawddegau cerddorol fel cyflwyniad a chyflwyno gweithgardd tebyg gan ddefnyddio nodiant cerddorol yn nes ymlaen.
Tasgau Byr wedi'u Ffocysu			
• **pwynt allweddol:** gellir brawddegau ceddorol cyfuno gyda rhythm a seibiau i lunio cyfansoddiad amldrac • **techneg:** defnyddio meddalwedd cerddoriaeth i greu traciau gydag alaw, rhythm a seibiau i gyfansoddi darn o gerddoriaeth	• Dangoswch i'r plant sut i amldracio brawddegau, rhythmau a seibiau i lunio cyfansoddiadau. Sut i newid offerynnau ar bob trac, a defnyddio effeithiau fel diffodd, atseinio etc. • Mewn parau, gofynnwch i'r plant ddefnyddio cyfansoddiad dau drac gan ddefnyddio brawddegau melodig gyda seibiau gwag i greu tôn gron • Cyflwynwch drydydd trac ac ychwanegwch rythm • Dylai'r plant arfarnu'r gwaith ar y gweill a mireinio eu cyfansoddiadau i'w perfformio i'r dosbarth	• Defnyddio meddalwedd cerddorol i greu cyfansoddiad amldrac sy'n defnyddio alaw, seibiau a rhythm. • Cadw ac arfarnu a gwerthuso eu gwaith a gwneud newidiadau i wella'r cyfansoddiad • Deall bod patrymau gan gerddoriaeth a defnyddio'r wybodaeth hon i greu darn o gerddoriaeth.	• Mae defnyddio tonau crynion yn ffordd dda o gyflwyno harmoni i blant • Gallai'r plant ddefnyddio oferynnau cerddorol go iawn fel cyfeiliant i'w cyfansoddiadau.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau Byr wedi'u Ffocysu (Parhad)			
• **syniad allweddol**: bod TGCh yn gallu cael ei defnyddio i ddewis a rheoli seiniau • **techneg**: creu seiniau i greu awyrgylch	• Rhannwch y plant yn grwpiau a rhowch stori i bob grŵp. Gofynnwch iddynt ddarllen a dadansoddi'r stori gan edrych am bwyntiau, cymeriadau, lleoliadau a naws allweddol. Gofynnwch iddynt ddefnyddio allweddellau electronig ac offerynau taro i greu cyfansoddiad ar gyfer eu stori. Anogwch nhw i gynllunio a gwrando'n ofalus ar ansawdd y seiniau y maen nhw'n eu creu a'u disgrifio gan ddefnyddio geirfa gerddorol a mynegiannol. • Gofynnwch i'r plant recordio eu cyfansoddiad i'w helpu i arfarnu eu gwaith a'i fireinio cyn ei berfformio i'r dosbarth.	• Sylweddoli y gellir defnyddio allweddellau electronig i ddewis a rheoli seiniau a'u bod yn gallu cael eu cyfuno gydag offerynnau eraill i greu naws. • Recordio eu cyfansoddiad, ei arfarnu, ei fireinio, gwneud gwelliannau a'i berfformio i'r dosbarth.	• Bydd y sgiliau a ddysgwyd yn y gweithgaredd hwn yn gwella'r gwaith a gyflawnir mewn unedau i ddod pan fydd y plant yn defnyddio cyflwyniadau amlgyfrwng.
• **syniad allweddol:** bod traw i nodau cerddorol ac maen nhw'n gallu cael eu gosod ar erwydd i greu alaw • **techneg**: dilyn rheolau syml i greu alaw drwy rhoi nodau ar erwydd, addasu a chadw y gwaith • arbrofi gyda tempo, cryfder y sain (mynegiant) a timbre	• Dangoswch i'r plant sut i osod y feddalwedd i gyfansoddi eu cerddoriaeth drwy fwydo teitl, dewis offerynnau ac esbonio'r eiconau i'w defnyddio. • Gofynnwch i'r plant ddefnyddio nodyn un curiad (crosiet) a rhoi rhai rheolau syml i'w dilyn i greu alaw heb fod yn fwy na phedwar bar. Dywedwch wrthynt i ddefnyddio nodyn dau guriad (minim) ar gyfer nodyn olaf eu halaw, fel atalnod llawn mewn brawddeg. • Gofynnwch iddynt arfarnu eu halaw gan wneud unrhyw newidiadau i'r traw, y tempo, y sain a'r timbre gan ddilyn y rheolau o hyd. • Perfformio eu halaw i'r plant eraill	• Dilyn rheolau syml i greu alaw drwy osod nodau ar erwydd • Arfarnu eu halaw a gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r traw. • Ystyried tempo, cryfder y sain a timbre • Addasu a chadw'r gwaith.	• Mae'n bwysig, yn y cam hwn, bod rheolau gan y plant i'w dilyn er mwyn iddynt ddeall bod patrymau ac adeiledd gan gerddoriaeth. Hefyd mae'n eu helpu i wneud eu gorau glas. • Dylai'r plant fod yn fodlon ar eu halaw cyn newid y tempo, cryfder y sain neu'r timbre. • Gallent gadw eu halaw gyda seiniau a thempo gwahanol ar gyfer arfarnu.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg

Amcanion Dysgu *Dylai disgyblion ddysgu…*	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau Byr wedi'u Ffocysu (Parhad)			
• **syniad allweddol**: bod gwerthoedd cerddorol gan nodau a gallant gael eu defnyddio i greu rhythm • bod siâp a ffurf gan gerddoriaeth • **techneg**: defnyddio amrediad eangach o werthoedd nodau cerddorol wedi'u gosod ar erwydd i ddilyn rheolau adeiledd a ffurf.	• Esboniwch wrth y plant y gall creu alaw mewn nodau un curiad fod yn anniddorol. Cyflwynwch nhw i rannu nodau un curiad yn nodau dau hanner curiad (cwaferau). Gofynwch iddynt glapio'r rhythymau • Siaradwch am yr ailadroddiadau mewn cerddoriaeth a'r defnydd o siâp a ffurf i greu strwythur. Y ffordd fwyaf syml yw dilyniant lle mae'r frawddeg gerddorol yn cael ei hailadrodd yn uwch neu'n is. Dangoswch ychydig o enghreifftiau i'r plant a gofynnwch iddynt newid ac estyn eu cyfansoddiadau i ddilyn y rheolau a osodwyd. Cyflwynwch y ffurf Ddwyran a Theiranl (AB ac ABA0 • Cyflwynwch y Raddfa Bentatonig i'w defnyddio wrth gyfansoddi. (Yn gyfres o 5 nodyn, mae Graddfa Bentatonig yn cynnwys nodyn 1af, 2ail, 3ydd, 5ed a 6ed nodyn y raddfa)	• Greu alaw rythmig gan ddefnyddio nodau cerddorol gyda ffurf ac adeiledd. • Nodi siâp a ffurf mewn adeileddau cerddorol syml e.e. Twinkle twinkle little star - ABA. • Creu cyfansoddiadau gan ddefnddio'r Raddfa Bentatonig. • Arfarnu a pherfformio eu cyfansoddiadau. • Cadw'u gwaith yn rheolaidd.	• Gall plant glapio rhythmau gair syml e.e. llaeth, coffi, te, siwgr etc. Gallent ddyfeisio eu rhythmau eu hunain. • Gallai plant mwy galluog ychwanegu erwydd rhythm. • Gallant argraffu eu cerddoriaeth i'w defnyddio gydag offerynnau taro wedi'u cyweirio.
Tasg Asesu • Defnyddio amrediad o werthoedd nodau cerddorol a/neu frawddegau gyda ffurff a phatrwm cerddorol i greu cyfansoddiadau cerddorol adeiledig. Arfarnu eu gwaith, ei fireinio, ei addasu a'i berfformio i bobl eraill.	• Gofynnwch i'r plant greu cyfansoddiad cerddorol ar y cyfrifiadur gan ddefnyddio alaw rhythmig, ffurf ac adeiledd, cynnig arfarniad o'u gwaith, gan esbonio'r dewisiadau y maen nhw wedi'u gwneud a pherfformio eu cyfansoddiad i'r dosbarth.	• Cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar y cyfrifiadur i greu cyfansoddiadau cerddorol strwthuredig. • Gwerthuso eu gwaith, a'i fireinio, ei addasu a'i berfformio o flaen pobl eraill.	• Gallai disgyblion greu cyfansoddiad ar gyfrifiadur sy'n cyfeilio i berfformiad byw ar offeryn traddodiadol.

© Tîm Cwricwlwm TGCh 2005. Gwasanaeth EffeithiolIrwydd Addysg